**CYPE(6)-18-23- Papur i'w nodi 8**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

9 Mai 2023

Annwyl Jayne

Yn ystod y sesiwn ar y gyllideb ddrafft ar 11 Ionawr 2023, cytunais y byddwn yn ysgrifennu at y pwyllgor i rannu canfyddiadau adolygiad polisi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â Chynllun Peilot Brecwast Blwyddyn 7. Oherwydd mai ychydig o amser sydd rhwng cael yr adroddiad interim a'r adroddiad terfynol, rwy'n rhannu'r canfyddiadau terfynol â chi.

Fel y gwyddoch, mae cynllun peilot 'optio i mewn' wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2021, sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gydlynu gan Dîm Bwyd mewn Ysgolion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Er mwyn cynorthwyo i asesu canlyniad y cynllun peilot, comisiynwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad polisi i roi cipolwg ar sut y mae'r cynllun peilot yn gweithredu. Canolbwyntiodd yr adolygiad polisi hwn ar:

- nifer yr ysgolion sy'n gweithredu'r cynllun peilot a'r nifer sy'n manteisio arno;
- cynnal grwpiau ffocws gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, sy'n gweithredu'r cynllun peilot, i gael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu rhywun sy'n rhan o'r cynllun ac yn ei weithredu;
- cynnal arolygon ar-lein gyda disgyblion Blwyddyn 7 a'u rhieni i gasglu data meintiol i ddarganfod a ydynt yn ymwybodol o'r brecwast ychwanegol.

Cyflwynodd Tîm Bwyd mewn Ysgolion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eu hadroddiad adolygu polisi terfynol ar 22 Mawrth.

I grynhoi, mae'r adroddiad yn dangos bod 62 (30%) o ysgolion uwchradd wedi dewis cymryd rhan erbyn mis Rhagfyr 2022 gyda'r gwariant ar gyfartaledd fesul disgybl cymwys y dydd yn parhau'n sefydlog ar tua £0.35. Mae'r gwerth hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw pob dysgwr cymwys yn manteisio ar y £1 sydd ar gael iddynt bob dydd.

O ran y nifer sy'n manteisio ar y cynllun peilot, canfuwyd bod hyn yn amrywio rhwng ysgolion ac yn ddibynnol ar ba mor dda y mae'r ysgol yn ei hyrwyddo i ddisgyblion a rhieni, faint oedd angen y cynllun, a phryd oedd y ddarpariaeth ar gael yn ystod y diwrnod ysgol. Lle'r oedd ysgolion yn darparu cynnig gwario fel y mynnir, roedd tua 30% yn manteisio arno, a'r gwariant cyfartalog yn £0.75 y disgybl. Roedd hyn yn cynyddu yn yr ysgolion oedd yn cynnig brecwast o £1. Ac roedd tua 45% o ddisgyblion yn manteisio ar hyn bob dydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Adroddir mai diffyg amser, amser teithio hir neu’r disgyblion ddim yn teimlo'n llwglyd cyn mynd i’r ysgol oedd y prif resymau dros beidio â chael brecwast adref. Felly, cafodd y cynllun peilot ei weld gan sawl ymatebydd fel help i ddarparu cynhaliaeth drwy gydol y diwrnod ysgol i'r rhai oedd wedi colli brecwast. Roedd peth tystiolaeth anecdotaidd bod hyn o fudd i iechyd a lles, dysgu a phresenoldeb y dysgwr.


Mae canfyddiadau hefyd yn ddefnyddiol i nodi’r rhwystrau i gyflwyno'r arlwy brecwast. Roedd y rhain yn cynnwys: argaeledd cyfyngedig darpariaethau brecwast yn dilyn COVID-19 naill ai cyn dechrau'r diwrnod ysgol neu yn ystod egwyl y bore; anawsterau addasu systemau arlwyo di-arian i ddarparu dau lwfans gwahanol (brecwast a chinio); a thrafferthion recriwtio staff yn ystod y cyfnod brecwast. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn argymell ystyried gwerth y lwfans yng nghyd-destun chwyddiant cynyddol a phrisiau bwyd.

Cafwyd adborth gan nifer o gynghorau yn sôn am gapasiti cyfyngedig o fewn y gwasanaethau arlwyo, a bod hyn yn effeithio ar y gallu i ymgymryd â’r cynllun peilot oherwydd natur fyrhoedlog tybiedig y cynllun peilot a’r ffocws presennol ar nifer o feysydd gan gynnwys: prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau; ail-sefydlu darpariaeth clybiau brecwast mewn ysgolion cynradd yn sgil pandemig COVID-19; addasu i’r gofynion newydd o ran labelu alergeddau; gweithio i wireddu nodau lles a chynaliadwyedd; rheoli materion staffio, cyflenwi bwyd a chostau bwyd a chyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb.

Er bod yr adroddiad yn cynnwys sylwadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cynllun peilot, nid yw’n gwneud argymhellion ynghylch y ffordd ymlaen.

Wrth symud ymlaen, bydd fy swyddogion yn darparu cyngor i mi ar y camau nesaf posibl. Rwy’n benderfynol o sicrhau nad oes yr un plentyn yn mynd heb fwyd yn ystod y diwrnod ysgol, a byddaf yn edrych ar rinweddau’r cyngor sydd wedi ei roi i mi, gan ystyried materion fel fforddiadwyedd, effaith ar ddysgwyr a pherthynas ag opsiynau posibl eraill yn y maes bwyd i ysgolion.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg